**Elin Jones AC, Llywydd**
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Elin Jones AM, Presiding Officer**
National Assembly for Wales

David Rees AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

2 Hydref 2017

Annwyl Gadeirydd

Diolch am eich llythyr ynglŷn ag ystyriaeth y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol o Fil yr UE (Ymadael). Fel y gwyddoch, mae cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol hefyd wedi ysgrifennu ataf yn yr un modd.

Cyflwynais y ddau lythyr i sylw'r Pwyllgor Busnes yn ei gyfarfod ar 26 Medi. Cytunodd y pwyllgor yn unfrydol â chadeirydd y pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn honni y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol fod yn gyfrifol am benderfynu ar y weithdrefn sydd i'w chymhwyso i wneud is-ddeddfwriaeth gan Weinidogion Cymru o dan y Bil, a byddai'n gefnogol i unrhyw symudiadau i ddiwygio'r Bil yn unol â hynny.

Nododd y Rheolwyr Busnes hefyd eich barn ei bod yn bosibl y bydd angen i'r Cynulliad ystyried rhai newidiadau gweinyddol a gweithdrefnol i sicrhau craffu priodol ar yr is-ddeddfwriaeth sy'n llifo, yn y pen draw, o'r pwerau a gynigir yn y Bil. Croesawodd y Rheolwyr Busnes y bwriad i ystyried y mater hwn yn fanylach, ac edrychwn ymlaen at dderbyn eich casgliadau ac argymhellion maes o law. Cred y Pwyllgor, wrth benderfynu ar y weithdrefn briodol, y bydd yn bwysig ystyried ymarferoldebau a chynhwysedd y Cynulliad, o ystyried y gyfran ddisgwyliedig o is-ddeddfwriaeth sy'n llifo o Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael), a sicrhau, ar yr un pryd, y gellir cynnal archwiliad priodol.



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Llywydd@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru
0300 200 7403

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
Llywydd@assembly.wales
www.assembly.wales
0300 200 7403

**Elin Jones AC, Llywydd**
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Elin Jones AM, Presiding Officer**
National Assembly for Wales

Edrychaf ymlaen at barhau i weithio gyda chi ar y materion hyn dros y cyfnod i ddod.

Yn gywir



Elin Jones AC
Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes